NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Hemiarthroplasti canolgarpaidd ar gyfer arthritis yr arddwrn

16 Hydref 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon. Mae hyn am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Yn achos arthritis yr arddwrn, mae'r cartilag yn y cymal yn treulio, gan adael i'r esgyrn rwbio yn erbyn ei gilydd. Gall hyn achosi poen ac anystwythder a'i gwneud yn anodd gafael mewn gwrthrychau. Yn ystod y driniaeth hon, caiff cymal arddwrn artiffisial ei greu drwy roi mewnblaniad metel yn lle rhannau o'r esgyrn yr effeithir arnynt yn y llaw. Caiff ymarferion cryfhau eu dechrau rhwng 4 a 6 wythnos ar ôl y llawdriniaeth. Y nod yw lleddfu'r boen a sicrhau y gall yr arddwrn barhau i symud.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-7999-8



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.